



# Tafarn Gymunedol

ASTUDIAETH ACHOS



## I Tafarn Cwmdu, siop a swyddfa bost Sir Gaerfyrddin, De Cymru



Mae Tafarn Cwmdu yn swatio ymhlith teras o fythynnod sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae wedi cael ei rhedeg gan y gymuned ers 2000 ac mae prydles i'r gymuned redeg y dafarn a'r siop.

Mae'n bentref bach, ond bywiog a sefydlwyd grŵp cymunedol, Cymdeithas Cwmdu, i gynnal rhinweddau arbennig y pentref drwy gynnal y dafarn, y siop a'r swyddfa bost fel busnes cymunedol. Ar ben hynny, mae'r grŵp yn trefnu nosweithiau thema, cerddoriaeth fyw, sinema a digwyddiadau blynyddol, yn ogystal â chynnal clybiau, fel y clwb hen beiriannau a cherbydau fferm clasurol.

Mae'r dafarn, y siop a'r swyddfa bost yn cael eu rhedeg gan gyfuniad o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, gyda nifer y gwirfoddolwyr yn cynyddu ar gyfer digwyddiadau arbennig. Mae 65 o aelodau a chyfranddalwyr yn rhan o'r busnes cymunedol, gyda'r adeiladau'n cael eu prydlesu am rent isel iawn.

Yn ogystal â hanfodion bob dydd, mae'r siop yn dod o hyd i gynnyrch lleol a Chymreig i gefnogi ei chymuned ffermio. Mae'r dafarn yn cymryd archebion am fara a danteithion ffres o'r ffwrn bob wythnos ac mae'r gegin yn darparu lle i ddau fusnes lleol arall sy'n cynhyrchu siocled a mêl lleol.

# Community Pub

CASE STUDY



Mae Tafarn Cwmdu wedi cael cyngor a chefnogaeth gan Sefydliad Plunkett, a ariennir gan Ymddiriedolaeth Dulverton, ar gyfer cynllunio ariannol a rheoli staff a gwirfoddolwyr.

Dywedodd Huw Pritchard, cyfarwyddwr y busnes cymunedol a gwirfoddolwr yn y swyddfa bost: “Rydyn ni’n bentref bach gyda rhyw ddwsin neu ddau o dai, ond mae’r dafarn, y siop a’r swyddfa bost yn gwasanaethu’r gymuned ffermio ehangach hefyd. Gan ein bod yn bentref mor fach, mae’n bwysig iawn ein bod gwarchod ein gwasanaethau lleol. Fel hyn, does dim angen i bentrefwyr deithio a gallwn fod yn gymuned wyrddach hefyd. Rydyn ni gyd yn cydnabod mor bwysig yw cadw’r gwasanaethau hanfodol hyn i fynd ar gyfer y gymuned ehangach.



Plunkett  
Foundation

[www.plunkett.co.uk](http://www.plunkett.co.uk)

Ble bynnag rydych chi yn y DU, os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn dechrau neu ddatblygu tafarn gymunedol, cysylltwch â Sefydliad Plunkett Plunkett - **01993 630022**, [info@plunkett.co.uk](mailto:info@plunkett.co.uk) neu ewch i [www.plunkett.co.uk](http://www.plunkett.co.uk) i gael gwybod sut y gallwn ni eich cefnogi.

Mae Sefydliad Plunkett yn helpu cymunedau gwledig ledled y DU i fynd i’r afael â’r problemau y maent yn eu hwynebu drwy hyrwyddo a chefnogi busnes cymunedol. Yn ogystal â datblygu a diogelu asedau a gwasanaethau gwerthfawr, mae busnesau cymunedol yn mynd i’r afael ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys ynysu, unigrwydd, lles, gwaith a hyfforddiant.

Os ydych yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer economi wledig fywiog gyda busnes cymunedol gwledig yn ganolog iddi, beth am ymuno â Plunkett fel aelod? Mae mwy o wybodaeth am ein pecynnau aelodaeth ar gael [yma](#).

Roedd yr astudiaeth achos hon yn bosibl drwy bartneriaeth a chyllid gan The Dulverton Trust er mwyn helpu i sefydlu ac i gefnogi busnesau cymunedol ledled Cymru a’r Alban.

**THE DULVERTON TRUST**